Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bro Eirwg**
**Heol Ridgeway**
**Rhymni**
**Caerdydd**
**CF3 4AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Eirwg yn ardal Tredelerch yng ngorllewin Caerdydd ac mae`n gwasanaethu ardaloedd Llanrhymni a Tredelerch.  Ysgol gynradd ddynodedig Cymraeg ydyw, lle cyflwynir Saesneg yn ffurfiol ar ddechrau cyfnod allweddol 2.

Mae 395 o ddisgyblion amser llawn yn yr ysgol a 64 yn y dosbarth meithrin yn rhan-amser.  Fe'u rhennir yn 15 o ddosbarthiadau a chyflogir 19 athro, gan gynnwys tri athro rhan-amser a'r pennaeth.  Daw tua 2.2% o'r disgyblion o gartrefi lle y mae'r Gymraeg yn brif iaith.  Daw tua 7% o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae 17% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae 18% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan ychydig iawn ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2013 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Eirwg yn 2015-2016 yw £3,232.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghaerdydd yw £6,099 a'r lleiafswm yw £2,901.  Mae Ysgol Bro Eirwg yn y 79fed safle o'r 96 ysgol gynradd yng Nghaerdydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth weithio yn eu dosbarthiadau ac wrth sgwrsio â'i gilydd
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol
- llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o'u targedau ac yn cyfeirio atynt yn gyson wrth weithio
- ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn ofalgar o'i gilydd
- rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn weithgar yn eu gwersi
- yr ysgol yn darparu profiadau dysgu difyr a gwerthfawr sy'n ennyn diddordeb ystod lawn o ddisgyblion
- ansawdd yr addysgu yn gyson gadarn ar draws yr ysgol
- perthynas waith hynod lwyddiannus yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion ym mhob dosbarth

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni
- llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol
- gweithdrefnau trefnus yn bodoli ar gyfer adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella
- bod yr adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys dadansoddiad pwrpasol o ddata ac yn ymgorffori barn rhanddeiliaid yn glir
- y cynllun datblygu yn nodi blaenoriaethau pwysig a phriodol
- staff yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid a bod hynny'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion

## Argymhellion

A1 Gwella gallu disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus mewn meysydd dysgu eraill

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn gwella presenoldeb

A3 Sicrhau gwahaniaethu pwrpasol mewn gwersi er mwyn herio disgyblion mwy abl eu gallu

A4 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i sylwadau athrawon er mwyn gwella safon eu gwaith

A5 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

A6 Sicrhau bod gwell cysylltiad rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda gallu sydd islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Fodd bynnag, o ystyried eu cefndir ieithyddol, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth weithio yn eu dosbarthiadau ac wrth sgwrsio yn achlysurol o gwmpas yr ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn medru defnyddio strategaethau da i gynllunio ac ysgrifennu darnau o waith estynedig yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion uwch eu gallu yn defnyddio ffurfiau cryno'r ferf yn hyderus ar ddechrau brawddegau ac yn defnyddio cymariaethau'n effeithiol i wella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig. Mae llawer yn ddarllenwyr brwdfrydig ac yn defnyddio ystod o strategaethau darllen pwrpasol yn llwyddiannus i adeiladu geiriau anghyfarwydd a rhoi ystyr i'r testun. Erbyn diwedd blwyddyn 2, mae bron pob disgybl yn dangos cynnydd yn eu gallu i gynnal trafodaethau a mynegi barn yn y Gymraeg.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Maent yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus a gall llawer ohonynt gyfrannu'n effeithiol tuag at drafodaethau dosbarth, yn ogystal â chynnal sgyrsiau anffurfiol aeddfed yn achlysurol o gwmpas yr ysgol. Mae medrau darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n fedrus. Maent yn darllen yn hyderus ac yn rhugl yn y ddwy iaith gan newid goslef llais yn effeithiol. Mae llawer yn dangos mwynhad wrth ddarllen ac yn medru trafod yn synhwyrol fanteision cyfieithu nofelau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn llwyddo i ysgrifennu portread o Barti Ddu, dyddiadur o'u hymweliad i Langrannog ac erthygl papur newydd am drychineb Aberfan yn effeithiol. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o atalnodi yn datblygu'n dda yng nghyfnod allweddol 2 ac maent yn gosod eu gwaith yn drefnus mewn paragraffau. Mae bron pob un yn medru ysgrifennu i'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r safonau yn uwch nag y mae data perfformiad y disgyblion yn ei awgrymu ar y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf drafod rheolau adio a thynnu yn hyderus, gan egluro sut y maent yn cyrraedd yr ateb yn gywir. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o amser analog i'r awr, hanner awr wedi a chwarter wedi i gofnodi trefn diwrnod. Mae llawer yn gallu defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r graff am hoff ardaloedd y disgyblion yng Nghaerdydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu, yn gadarn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn dechrau defnyddio eu medrau mathemategol i ddatrys problemau rhesymu rhifedd yn briodol, er enghraifft i gymharu costau aros mewn gwestai amrywiol yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, ar y cyfan, anghyson yw gallu disgyblion ar draws yr ysgol i gymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus mewn meysydd dysgu eraill.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae tuedd i berfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig fod yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.  Ar y deilliant uwch, mae perfformiad yr ysgol yn gyson yn yr 50% is mewn llythrennedd ac yn y 25% isaf mewn mathemateg dros gyfnod o bedair blynedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg a Saesneg yn dangos tuedd ar i fyny.  Fodd bynnag, mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad disgyblion o dan y canolrif dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae perfformiad ar y lefelau uwch yn gyson is na’r canolrif dros gyfnod o amser.

Mae perfformiad disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn debyg i berfformiad y gweddill ar y lefel ddisgwyliedig.  Fodd bynnag, ychydig iawn o’r disgyblion hyn sy’n cyrraedd y lefelau uwch.

Mae gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefelau disgwyliedig ac uwch yn y Gymraeg a’r Saesneg.

**Lles:  Digonol**

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn ofalgar o’i gilydd, yn arbennig ar yr iard.  Dangosant gwrteisi tuag at oedolion ac ymwelwyr.  Maent yn mwynhau dysgu ac yn weithgar yn eu gwersi.

Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.  Mae’r mwyafrif yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd.  Mae’r mwyafrif yn manteisio ar y cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol a ddarperir gan yr ysgol i ymarfer y corff.

Mae aelodau’r cyngor ysgol yn weithgar ac yn effeithiol wrth gyfrannu at fywyd bob dydd yr ysgol.  Er enghraifft, maent yn cymryd rhan allweddol wrth ddatblygu gweithdrefnau gwobrwyo effeithiol ar gyfer hyrwyddo hunanddisgyblaeth yn ogystal â gwella eu hunan-barch.  Maent yn cyfrannu’n helaeth at waith elusennol yr ysgol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned.  Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a’u medrau bywyd yn effeithiol.  Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o’u targedau ac yn cyfeirio atynt yn gyson wrth weithio.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.  Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu difyr a gwerthfawr sy'n ennyn diddordeb yr ystod lawn o ddisgyblion. Mae gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi eu hymgorffori yn gelfydd yn y cynlluniau tymor canolig ac wythnosol. Mae'r cynlluniau hyn, sydd wedi eu trefnu'n themâu trawsgwricwlaidd, yn sicrhau dilyniant wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae'r ysgol yn manteisio'n effeithiol ar gyfleoedd amrywiol i gyfoethogi'r cwricwlwm a datblygu medrau'r disgyblion ymhellach trwy drefnu ymweliadau addysgol sy'n darparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymweliadau â Bae Caerdydd a Llancaiach Fawr. Mae'r ysgol yn cynnal nifer helaeth o glybiau allgyrsiol amrywiol fel clwb darllen a gwyddbwyll, sy'n darparu cyfleodd arbennig i'r disgyblion gymdeithasu a datblygu eu medrau llythrennedd a meddwl.

Lle'n briodol, mae'r ysgol yn darparu ystod o ymyraethau penodol sy'n sicrhau cynhaliaeth effeithiol i'r disgyblion sydd angen cymorth pellach i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn llwyddo i feithrin balchder yn y disgyblion o'u hunaniaeth. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am hanes Cymru trwy glywed chwedlau Cymreig, hanesion fel trychineb Aberfan, ac am awduron ac artistiaid o Gymru fel Peter Prendergast ac Anthony Evans. O ganlyniad, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn barod iawn i gynnal trafodaeth am eu harwyr o Gymru.

Mae aelodau'r pwyllgor eco yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion eraill o faterion cynaliadwy fel ailgylchu. Mae'r ysgol hefyd yn darparu gweithgareddau cyson i ddatblygu ymwybyddiaeth ei disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang. Enghraifft dda o hyn yw'r astudiaethau ar Batagonia a'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am barthau amser.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson gadarn ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn datblygu gwybodaeth flaenorol ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff cynorthwyol yn chwarae eu rôl yn fedrus wrth gefnogi'r dysgu ac mae'r berthynas waith hynod lwyddiannus sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion ym mhob dosbarth yn elfen ragorol. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio'n ddigon effeithiol i herio'r disgyblion mwyaf abl.

Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Fodd bynnag, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau'r athrawon a diwygio eu gwaith er mwyn cyrraedd lefelau uwch.

Mae'r ysgol yn defnyddio system electronig yn effeithiol i gofnodi cyrhaeddiad y disgyblion ac yn gwneud defnydd da o brofion safonol ac asesiadau athrawon er

mwyn olrhain eu cynnydd. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio’r wybodaeth yn briodol i ddarparu ymyrraeth ychwanegol er mwyn symud y dysgu ymlaen i’r cam nesaf.

Mae’r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio’n llawn â’r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned gynnes ac mae trefniadau effeithiol ar waith er mwyn cefnogi lles a datblygiad personol ac addysgol y disgyblion. Caiff datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion ei ddatblygu’n llwyddiannus ar draws yr ysgol drwy wasanaethau a chyfleoedd i addoli ar y cyd yn rheolaidd fel adrannau ac fel ysgol gyfan. Yn yr un modd, mae’r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion drwy weithgareddau amrywiol fel mêts buarth ac ymweliadau rheolaidd â’r gymuned. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion trwy weithgareddau fel rygbi, pêl rwyd a rhedeg trawsgwlad, ac mae trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer annog y disgyblion i fwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau a chysylltiadau effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol sy’n sicrhau bod lles y disgyblion a’u teuluoedd yn cael y gofal a’r gynhaliaeth bwrpasol. Mae’r gynhaliaeth mae’r disgyblion yn ei derbyn trwy ddilyn rhaglen benodol yn bodloni anghenion cymdeithasol y disgyblion hyn yn llwyddiannus.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau’r ysgol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol ei disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn adnabod anghenion penodol gwahanol ddisgyblion yn gynnar, ac yn gweithredu’n bwrpasol. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir ac yn amlinellu gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae’r disgyblion yn cymryd rhan allweddol mewn creu eu targedau personol ac mae rhieni’n cael cyfle rheolaidd i drafod cynnwys y cynlluniau. Mae’r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr dysgu yn effeithiol i gefnogi’r addysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, ag iddi ethos cynhwysol sy’n seiliedig ar greu amgylchedd hapus, diogel, a datblygol o fewn awyrgylch Cymraeg.

Mae gan yr ysgol adnoddau addas a phriodol i ddiwallu holl anghenion y cwricwlwm, gan gynnwys ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r adeilad yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae’r gwaith o’i gynnal a’i gadw yn dda. Mae’r amgylchedd dysgu yn ysgogol gydag arddangosfeydd lliwgar ar hyd y coridorau ac o fewn y dosbarthiadau sy’n cynnwys enghreifftiau crefftus o waith y disgyblion. Mae’r rhain yn cyfoethogi ac ysgogi’r dysgu yn effeithiol.

Mae'r cyfleusterau'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae arweinwyr wedi, ac yn, parhau i fuddsoddi'n sylweddol i wella cyflwr yr ychydig ardaloedd sydd angen eu gwella. Tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at ddau fater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel, lles da a Chymreictod y disgyblion. Mae'n darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i gyflawni'r weledigaeth honno.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi cyfoethogi rôl yr uwch dîm rheoli. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn fuddiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau drwy weithredu nifer o strategaethau gwerthfawr ac mae eu rôl y yn y broses o fonitro a sicrhau ansawdd yn dechrau datblygu.

Mae gan yr athrawon ddisgrifiadau swydd manwl, sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn eu lle, sy'n gosod amcanion addas ar gyfer datblygu medrau athrawon ymhellach.

Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn canolbwyntio'n glir ar weithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae'r staff yn cydweithio'n lled effeithiol fel tîm er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwella.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth roi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn ddeallus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnwys cynllun datblygu presennol yr ysgol ac o flaenoriaethau ar gyfer gwella. Er eu bod wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn fwy effeithiol, nid yw eu rôl yn y broses o hunanarfarnu a monitro ansawdd eto wedi datblygu'n llawn.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu sydd wedi eu cynllunio'n drefnus a'u hamserlenni'n synhwyrol. Er eu bod yn dechrau gwreiddio'n rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol, mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith lawn ar godi safonau a gwella a chysoni ansawdd y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys dadansoddiad pwrpasol o ddata ac yn ymgorffori barn aelodau'r uwch dim rheoli, gweddill y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion yn glir. Fodd bynnag, nid yw'r cynnwys bob amser yn seiliedig ar ddeilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau pwysig a phriodol. Mae'n rhestru camau addas i'w cymryd er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau gan nodi'n glir y meini prawf llwyddiant a'r aelodau staff sydd â chyfrifoldeb am eu cyflawni. Nodir yn glir amserlen ar gyfer y gwaith, y cyllid i gefnogi'r blaenoriaethau a'r ffynhonnell dystiolaeth i'w defnyddio wrth werthuso effaith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n dda.

Mae ganddi berthynas fuddiol â rhieni. Mae'n eu hysbysu'n dda am ei gweithdrefnau, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfrwng electronig a rhwydweithiau cymdeithasol. O ganlyniad, mae gan y rhieni ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n digwydd yno. Mae cymdeithas ffrindiau'r ysgol yn weithgar ac yn codi arian yn rheolaidd. Defnyddir yr arian yn bwrpasol i ddarparu adnoddau ychwanegol i ddisgyblion, er enghraifft, offer chwarae i'w defnyddio ar yr iard yn ystod amser egwyl.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol â'r cylch meithrin lleol er mwyn sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddi bartneriaeth gref â'r ysgol uwchradd leol hefyd. Mae trefniadau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd yn sicrhau trosglwyddo esmwyth wrth i ddisgyblion gychwyn ar y cam nesaf yn eu haddysg ar ddiwedd eu cyfnod mewn addysg gynradd.

Mae'r ysgol yn hybu cysylltiadau llwyddiannus ag asiantaethau, cymdeithasau a busnesau er budd addysg a lles disgyblion. Mae'n gwneud defnydd buddiol o gymorth unigolion o'r gymuned i gefnogi gweithgareddau disgyblion. Enghraifft dda, sy'n datblygu medrau darllen y disgyblion, yw'r gwirfoddolwyr sy'n dod i wrando ar ddarllenwyr.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion y clwstwr i rannu arferion da, er enghraifft trwy rannu dulliau addysgu llythrennedd a gwahodd athrawes o'r ysgol uwchradd i ddysgu Ffrangeg i ddisgyblion Blwyddyn 6. Mae'r hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus â'r ysgolion hyn i gyd-safoni a chymedroli enghreifftiau o waith llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth y disgyblion er mwyn sicrhau dilysrwydd lefelau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd priodol o arbenigedd staff. Mae'r cymorthyddion yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Maent yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at godi safonau cyrhaeddiad a gwella lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon ac maent yn defnyddio eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r prosesau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn arwain at ddatblygiad proffesiynol athrawon mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol a blaenoriaethau penodol unigolion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill yn y clwstwr i rannu arfer dda ac i ddatblygu strategaethau i wella lles disgyblion.

Mae penderfyniadau gwariant yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol yn dda ac mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol.

Mae'r defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynnal disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at godi safonau darllen.
Gan ystyried y cynnydd a wneir gan ddisgyblion ac ansawdd cadarn y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6812171 - YSGOL BRO EIRWG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 473 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 19.0 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 59 | 58 | 60 | 57 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 89.8 | 77.6 | 81.7 | 87.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 3 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 58 | 60 | 57 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.2 | 77.6 | 88.3 | 89.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 6.8 | 6.9 | 23.3 | 24.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 58 | 60 | 57 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.2 | 86.2 | 86.7 | 94.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 10.2 | 8.6 | 16.7 | 21.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 59 | 58 | 60 | 57 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 89.7 | 93.3 | 98.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 35.6 | 25.9 | 18.3 | 45.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6812171 - YSGOL BRO EIRWG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 473 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 19.0 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 52 | 54 | 52 | 60 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 70.4 | 84.6 | 85.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 54 | 52 | 60 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.8 | 70.4 | 90.4 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.8 | 22.2 | 28.8 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 54 | 52 | 60 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 76.9 | 72.2 | 88.5 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.1 | 27.8 | 23.1 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 54 | 52 | 60 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 78.8 | 79.6 | 88.5 | 88.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 32.7 | 33.3 | 32.7 | 35.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 52 | 54 | 52 | 60 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 81.5 | 92.3 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 36.5 | 29.6 | 34.6 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 105 | 95 | 10 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 105 | 83 | 22 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 79% | 21% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 105 | 96 | 9 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 105 | 94 | 11 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 90% | 10% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 104 | 91 | 13 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 88% | 12% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 105 | 90 | 15 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 105 | 102 | 3 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 105 | 97 | 8 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 103 | 86 | 17 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 105 | 93 | 12 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 89% | 11% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 105 | 47 | 58 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 55% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 105 | 71 | 34 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 68% | 32% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 58 | 29 | 25 | 1 | 3 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 43% | 2% | 5% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 59 | 37 | 18 | 1 | 3 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 63% | 31% | 2% | 5% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 59 | 31 | 28 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 58 | 26 | 28 | 1 | 3 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 48% | 2% | 5% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 54 | 14 | 34 | 3 | 3 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 26% | 63% | 6% | 6% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 56 | 23 | 30 | 2 | 1 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 41% | 54% | 4% | 2% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 55 | 32 | 21 | 0 | 2 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 58% | 38% | 0% | 4% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 55 | 26 | 24 | 3 | 2 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 44% | 5% | 4% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 54 | 24 | 21 | 5 | 4 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 44% | 39% | 9% | 7% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 52 | 28 | 22 | 2 | 0 | 7 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 56 | 25 | 27 | 1 | 3 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 45% | 48% | 2% | 5% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 46 | 17 | 24 | 2 | 3 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 37% | 52% | 4% | 7% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 56 | 14 | 34 | 7 | 1 | 3 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 25% | 61% | 12% | 2% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 57 | 29<br>51% | 23<br>40% | 3<br>5% | 2<br>4% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 51 | 18<br>35% | 20<br>39% | 8<br>16% | 5<br>10% | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 53 | 22<br>42% | 27<br>51% | 2<br>4% | 2<br>4% | 6 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 39 | 16<br>41% | 18<br>46% | 1<br>3% | 4<br>10% | 20 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 54 | 22<br>41% | 25<br>46% | 7<br>13% | 0<br>0% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 56 | 24<br>43% | 26<br>46% | 4<br>7% | 2<br>4% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Mary Davies | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| David Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iwan Ellis | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.